# CYNGOR SIR YNYS MÔN

## Cofnodion y cyfarfod hybrid a gynhaliwyd ar 20 Mai 2025

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd Glyn Haynes (Cadeirydd) (ar gyfer eitemau 1 i 7);
Y Cynghorydd Non Dafydd (Is-gadeirydd) (ar gyfer eitemau 1 i 7).

Y Cynghorydd Non Dafydd (Cadeirydd) (ar gyfer eitemau 8 i 16);
Y Cynghorydd Dafydd Rhys Thomas (Is-gadeirydd) (ar gyfer eitemau 8 i 16).

Y Cynghorwyr Geraint Bebb, Jeff M Evans, Neville Evans, Douglas M Fowlie, Kenneth P Hughes, T Ll Hughes MBE, Carwyn Jones, John Ifan Jones, R Ll Jones, Aled M Jones, G O Jones, Dyfed Wyn Jones, Jackie Lewis, Euryn Morris, Pip O'Neill, Llio Angharad Owen, Derek Owen, Gary Pritchard, Dylan Rees, Alun Roberts, Dafydd Roberts, Keith Roberts, Ken Taylor, Dafydd Rhys Thomas, Ieuan Williams, Robin Williams, Sonia Williams ac Arfon Wyn

**WRTH LAW:** Prif Weithredwr,
Dirprwy Brif Weithredwr,
Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro,
Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151,
Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol,
Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc,
Pennaeth Proffesiwn Adnoddau Dynol a Thrawsnewid,
Pennaeth Gwasanaethau Tai,
Pennaeth Gwasanaethau Oedolion,
Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd,
Pennaeth Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo,
Pennaeth Democratiaeth,
Swyddog Pwyllgor (MEH),
Swyddog Gweddarlledu Gwasanaeth Pwyllgorau (FT).

**YMDDIHEURIADAU:** Y Cynghorwyr Paul Ellis, Margaret Murley Roberts, Nicola Roberts, Alwen P Watkin a Liz Wood.

**1. COFNODION**

Cadarnhawyd bod cofnodion cyfarfod blaenorol Cyngor Sir Ynys Môn a gynhaliwyd ar 6 Mawrth 2025 yn gywir.

**2. DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Ni dderbyniwyd yr un datganiad o ddiddordeb.

## 3. CYHOEDDIADAU

Gwnaethpwyd y cyhoeddiadau canlynol gan y Cadeirydd:-

- Llongyfarchwyd Mr Medwyn Williams, y garddwr o Lanfairpwll, a oedd yn dathlu 50 mlynedd o werthu llysiau ar hyd a lled y DU yn ddiweddar, yn ogystal â dathlu 75 mlynedd ers iddo ddechrau garddio. Mae Mr Williams wedi derbyn llu o anrhydeddau yn ystod y cyfnod hwn, gan gynnwys MBE, ac mae o wedi ennill y Fedal Aur 14 o weithiau yn Sioe Flodau Chelsea.

- Llongyfarchwyd Mr Roger Tebbutt a Mrs Debbie Tebbutt o Ynys Môn am ennill y gystadleuaeth gorau yn y brid yn Crufts ym mis Mawrth gyda'u Bleiddgi Gwyddelig, Tozie.

- Llongyfarchwyd Alys Bailey-Wood o Ynys Môn a gafodd ei chydnabod yn ddiweddar am ennill y Wobr King's Scout, y wobr uchaf a roddir gan y Sgowtiaid, a hynny mewn digwyddiad yng Nghastell Windsor. Rhoddir y wobr am gyflawniad personol eithriadol ac mae'n cael ei rhoi i Sgowtiaid rhwng 16 a 25 oed.

- Dymunwyd yn dda i'r cyn Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu (PCSO) Iona Beckman wrth iddi ymddeol o'i swydd gyda Heddlu Gogledd Cymru. Bu Iona Beckman yn gwasanaethu cymunedau Ynys Môn, a Benllech ac Amlwch yn arbennig, am 18 mlynedd fel rhan o'r tîm heddlua cymunedau lleol.

- Llongyfarchwyd Laura Wannop, sydd yn weithiwr cymorth meithrin gyda thîm Maethu Cymru Môn, gan ei bod wedi cwblhau Marathon Manceinion yn ddiweddar yn ei chrys-t piws Maethu Cymru Môn arbennig.

- Llongyfarchwyd Osian Perrin o Menai Track and Field wedi iddo dorri record ras ffordd 5k Cymru ym mis Mawrth. Roedd y record flaenorol yn bodoli ers 40 mlynedd.

- Llongyfarchwyd tîm dan 14 Clwb Rygbi Llangefni a enillodd Gwpan Rygbi Gogledd Cymru yn ddiweddar a thimau dan 14 a dan 16 y genethod a enillodd gystadleuaeth y plât.

- Llongyfarchwyd y bariton Steffan Lloyd Owen o Ynys Môn a enillodd gystadleuaeth fawreddog Canwr Operatig Rhyngwladol Josep Palet ddiwedd mis Mawrth.

- Llongyfarchwyd Côr Esceifiog a enillodd y wobr am y perfformiad gorau gan unrhyw gôr yn yr ŵyl gerddoriaeth Ban Geltaidd yn Carlow, Iwerddon.

- Dywedodd y Cadeirydd bod Theatr Fach yn Llangefni wedi dathlu ei phen-blwydd yn 70 yn gynharach yn y mis. Mae'r theatr wedi diddanu a chynnig

cyfleoedd i nifer o bobl leol dros y blynyddoedd, diolch i waith caled ac ymroddiad y gwirfoddolwyr.

- Llongyfarchwyd pawb fu'n cymryd rhan yn Eisteddfod Môn dros y penwythnos a dymunwyd yn dda i blant a phobl ifanc fydd yn cystadlu yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd ddiwedd y mis.

* * * *

Roedd y Cynghorydd Jeff Evans yn dymuno cydnabod a llongyfarch Clwb Pêl-droed Hotspurs Caergybi ar eu llwyddiant diweddar o gael eu dyrchafu i haen dau yn y gynghrair bêl-droed.  Roedd yn dymuno llongyfarch Mr Alex Jones hefyd, sef capten Clwb Pêl-droed Hotspurs Caergybi am wasanaethu'r tîm am 25 mlynedd.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Evans hefyd at lwyddiant Mr Jackson Hadden, Pencampwr Bocsio Cymru ym Mhencampwriaethau Bocsio Cymru a Mr Rocko Jones a gyrhaeddodd y rownd derfynol yn yr un gystadleuaeth. Nododd bod Clwb Bocsio Môn Draig Goch, a sefydlwyd yn ddiweddar, yn llwyddo i gefnogi pobl ifanc i fod yn bencampwyr yn y dyfodol.

* * * *

Nododd y Cadeirydd bod y Cyngor Sir a chydweithwyr o Lu Awyr Brenhinol y Fali wedi dathlu 80 mlynedd ers Diwrnod VE ar 8 Mai, trwy gynnal seremoni codi baner tu allan i Swyddfeydd y Cyngor. Roedd aelodau wedi mynychu digwyddiad gyda'r nos i gofio Diwrnod VE hefyd, a gynhaliwyd ym Mynydd Parys. Roedd y ddau ddigwyddiad yn gyfle i gofio'r genhedlaeth a aberthodd cymaint er mwyn i ni fwynhau ein rhyddid heddiw.

* * * *

Cydymdeimlwyd â theulu Mrs Sharon Warnes, a fu farw'n ddiweddar. Roedd Mrs Warnes yn aelod uchel ei pharch o Bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio'r Cyngor a bu'n aelod o'r Pwyllgor Safonau yn y gorffennol hefyd.

* * * *

Cydymdeimlwyd ag unrhyw Aelod o'r Cyngor neu staff oedd wedi cael profedigaeth yn ddiweddar. Safodd yr Aelodau a Swyddogion fel arwydd o barch.

**4. CYFLWYNO DEISEBAU**

Ni dderbyniwyd yr un ddeiseb.

**5. ADRODDIAD BLYNYDDOL ARWEINYDD Y CYNGOR 2024/25**

Cyflwynwyd Adroddiad Blynyddol Arweinydd y Cyngor ar gyfer 2024/25.

Dywedodd Arweinydd y Cyngor bod thema'r adroddiad yn adlewyrchu ei flaenoriaethau wedi iddo gael ei ethol yn Arweinydd ym mis Medi 2024 ac maent yn

cyd-fynd a chwe amcan strategol y Cyngor sydd wedi eu nodi yng Nghynllun y Cyngor ar gyfer 2023-2028. Nododd bod parch tuag at y Cyngor yn amlwg ledled y rhanbarth.

Cyfeiriodd at y maes addysg a dywedodd fod Uned Graig Fach wedi agor yn Ysgol y Graig ym mis Mehefin 2024 a bod gwaith atgyweirio adeiladau, gan gynnwys gwaith yn gysylltiedig â choncrit RAAC yn Ysgol Uwchradd Caergybi ac Ysgol David Hughes, wedi'i gwblhau. Roedd yn dymuno diolch i wasanaethau'r Cyngor a fu'n gweithio'n effeithiol i sicrhau fod yr ysgolion yn gallu parhau i ddarparu addysg a chefnogaeth i'r disgyblion. Cyfeiriodd hefyd at y Canolfannau Iaith sydd yn gwbl weithredol a dywedodd iddo gael y pleser o ymweld ag Ysgol Gynradd Llanfairpwll yn ddiweddar.

Cyfeiriodd yr Arweinydd at yr elfen gofal cymdeithasol a nododd bod yr Awdurdod wedi buddsoddi mewn 4 Cartref Clyd. Mae hynny'n sicrhau bod plant yn derbyn gofal o'r ansawdd orau heb orfod gadael eu cymunedau.

Cyfeiriodd yr Arweinydd at yr economi a thynnodd sylw at arian y Gronfa Ffyniant Gyffredin gwerth £16m a dderbyniwyd tuag at brosiectau fydd yn gwneud gwahaniaeth mewn cymunedau lleol. Mae bron i 400 o fusnesau, mentrau a sefydliadau wedi derbyn grantiau trwy'r cynllun ac mae 631 wedi derbyn cymorth ychwanegol. Nododd bod caniatâd cynllunio wedi'i roi i 10 busnes newydd yn Amlwch. Ychwanegodd bod gwaith yn parhau i fynd rhagddo mewn perthynas â'r statws Porthladd Rhydd a bydd yn gyfle i wella economi Gogledd Cymru.

Cyfeiriodd yr Arweinydd at yr elfen dai a nododd bod 63 o dai gwag wedi dod yn ôl i ddefnydd fel cartrefi. Nododd fod gwaith wedi'i wneud i warchod Fflatiau Plas Alltran, Caergybi, sy'n adeilad rhestredig Gradd II a fu mewn cyflwr gwael ers nifer o flynyddoedd. Mae datblygiadau wedi'u cwblhau yn Llys Llwydiarth, Ffordd Kyffin a Chilfach Gwta ac mae Cymdeithas Tai Clwyd Alyn wedi cwblhau 45 uned yn y Fali hefyd.

Cyfeiriodd yr Arweinydd hefyd at y statws a roddir i'r Gymraeg fel nod strategol yng Nghynllun y Cyngor ar gyfer 2023-2028 ac mae'n gam pwysig o ran cadarnhau statws y Gymraeg o fewn y Cyngor. Mae Fforwm y Gymraeg wedi dathlu ei deg mlwyddiant, yn dilyn ei sefydlu yn 2014, ac roedd yn bleser gweld cymaint o bobl yn gwrando ar gyfraniadau rhai o aelodau'r Fforwm yn Sioe Môn fis Awst diwethaf, er mwyn dathlu'r garreg filltir. Dywedodd bod y gefnogaeth barhaus trwy Fforwm y Gymraeg yn dyst i'r dymuniad a'r penderfyniad i sicrhau fod y Gymraeg yn parhau i ffynnu a sefydlu'r iaith fel prif elfen Cynllun y Cyngor.

Diolchodd y Cynghorydd Aled Morris Jones i'r Arweinydd am ei adroddiad a gofynnodd am gyfarfod brys mewn perthynas â materion addysg, ac yn benodol methiant plant i gael eu derbyn i'r ysgol gynradd a ffafrir ganddynt oherwydd bod polisïau addysg yn pennu bod rhaid cludo'r plant i ysgol arall. Mae digon o leoedd yn yr ysgol a ffafrir gan y plant ac mae'n fodlon derbyn. Rhoes yr Arweinydd sicrwydd y byddai'n gwneud trefniadau i drafod y mater.

## 6. ADRODDIAD BLYNYDDOL SGRIWTINI 2024/25

Cyflwynwyd adroddiad Cadeiryddion y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a'r Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio i'r Cyngor ei dderbyn.

Dywedodd y Cynghorydd Douglas M Fowlie, Cadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol, bod yr Adroddiad Blynyddol yn cwmpasu gwaith y ddau bwyllgor sgriwtini rhwng Mai 2024 a Mai 2025. Roedd yn dymuno diolch i Aelodau Etholedig o'r ddau Bwyllgor Sgriwtini, ynghyd â'r Tîm Sgriwtini am eu harweiniad, eu cefnogaeth a'u parodrwydd i fod o gymorth.

**PENDERFYNWYD:-**

- **Cymeradwyo'r Adroddiad Blynyddol Sgriwtini a Throsolwg ar gyfer 2024/25;**
- **Nodi'r cynnydd parhaus a wnaed o ran gweithredu ein taith Sgriwtini ac effaith hynny ar ymarfer;**
- **Penodi Cadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio yn Bencampwr Sgriwtini ar gyfer y cyfnod rhwng Mai 2025 a Mai 2026.**

## 7. ETHOL CADEIRYDD

**PENDERFYNWYD, yn unfrydol, ethol y Cynghorydd Non Dafydd yn Gadeirydd ar Gyngor Sir Ynys Môn ar gyfer 2025/2026.**

Wrth dderbyn yr anrhydedd o gael ei phenodi, sicrhaodd y Cynghorydd Non Dafydd y Cyngor y byddai'n ceisio cyflawni ei dyletswyddau fel Cadeirydd hyd eithaf ei gallu. Diolchodd i'w holynydd, y Cynghorydd Glyn Haynes, am gyflawni ei ddyletswyddau fel Cadeirydd y Cyngor Sir mor urddasol ac anrhydeddus a chyflwynodd rodd iddo i gydnabod ei wasanaeth.

Diolchodd y cyn-Gadeirydd, y Cynghorydd Glyn Haynes, i'r Aelodau a Swyddogion am eu cefnogaeth. Roedd am ddiolch i staff y Gwasanaethau Democrataidd am eu cefnogaeth yn ystod ei dymor fel Cadeirydd Cyngor Sir Ynys Môn. Cyfeiriodd y Cynghorydd Haynes at y llu o ddigwyddiadau y bu iddo eu mynychu a'r fraint o gynrychioli'r Cyngor Sir yn y digwyddiadau hynny. Dywedodd hefyd ei bod yn fraint iddo, fel Cadeirydd y Cyngor, fynychu'r digwyddiad i nodi 80 mlynedd ers Diwrnod VE tu allan i Swyddfeydd y Cyngor, gyda chydweithwyr o Lu Awyr Brenhinol y Fali. Nododd iddo ef fel Cadeirydd, ac Aelodau eraill o'r Cyngor, fynychu digwyddiad i gofio Diwrnod VE ym Mynydd Parys gyda'r nos hefyd.

## 8. ETHOL IS-GADEIRYDD

**PENDERFYNWYD, yn unfrydol, ethol y Cynghorydd Dafydd Rhys Thomas yn Is-gadeirydd ar Gyngor Sir Ynys Môn ar gyfer 2025/2026.**

## 9. AELODAETH O'R PWYLLGOR GWAITH

Yn unol â Pharagraff 4.1.1.2.7 o'r Cyfansoddiad, enwodd yr Arweinydd yr Aelodau canlynol a ddewiswyd ganddo i fod yn Aelodau o'r Pwyllgor Gwaith, ynghyd â'u cyfrifoldebau Portffolio:-

Y Cynghorydd Gary Pritchard (Arweinydd) gyda chyfrifoldeb Portffolio am Ddatblygu Economaidd;

Y Cynghorydd Robin Williams (Dirprwy Arweinydd) gyda chyfrifoldeb Portffolio am Gyllid a Gwasanaethau Tai;

Y Cynghorydd Neville Evans gyda chyfrifoldeb Portffolio am Hamdden, Twristiaeth a Morwrol;

Y Cynghorydd Carwyn Jones gyda chyfrifoldeb Portffolio am Fusnes Corfforaethol a Phrofiad y Cwsmer;

Y Cynghorydd Dyfed W Jones gyda chyfrifoldeb Portffolio am Blant, Pobl Ifanc a Theuluoedd;

Y Cynghorydd Alun Roberts gyda chyfrifoldeb Portffolio am Wasanaethau Oedolion (Gwasanaethau Cymdeithasol) a Diogelwch Cymunedol;

Y Cynghorydd Dafydd Roberts gyda chyfrifoldeb Portffolio am Addysg a'r Gymraeg;

Y Cynghorydd Nicola Roberts gyda chyfrifoldeb Portffolio am Gynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Newid Hinsawdd;

Swydd Wag - cyfrifoldeb Portffolio am Briffyrdd, Gwastraff ac Eiddo.

**10. ETHOL CADEIRYDD Y PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD**

Yn unol â Rhan 3.4.12.3 o'r Cyfansoddiad, **PENDERFYNWYD ethol y Cynghorydd Keith Roberts yn Gadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd.**

**11. CADARNHAU'R CYNLLUN DIRPRWYO**

**Yn unol â Rhan 3.2 o'r Cyfansoddiad, PENDERFYNWYD cadarnhau'r rhan honno o'r Cynllun Dirprwyo y mae'r Cyfansoddiad yn nodi mai mater i'r Cyngor yw cytuno arno.**

**12. CADARNHAU PWYLLGORAU**

**PENDERFYNWYD ailbenodi'r strwythur Pwyllgorau fel y cyfeirir ato yn Adran 3.4 o Gyfansoddiad y Cyngor, ynghyd â'r canlynol: -**

- **Panel Penodiadau'r Pwyllgor Safonau;**
- **Cyngor Ymgynghorol Sefydlog (CYS);**
- **Is-bwyllgor Indemniadau.**

**13. RHAGLEN CYFARFODYDD CYFFREDINOL Y CYNGOR SIR AR GYFER 2025/26**

**PENDERFYNWYD cymeradwyo'r rhaglen ganlynol o gyfarfodydd cyffredinol y Cyngor Sir am y flwyddyn nesaf: -**

- **25 Medi, 2025 - 2.00 yp**
- **9 Rhagfyr 2025 – 2.00 yp**
- **5 Mawrth 2026 - 2.00 yp**
- **Mai 2026 (Cyfarfod Blynyddol) – dyddiad i'w gadarnhau**

Awgrymodd y Cynghorydd Aled M Jones y dylid ystyried cynnal cyfarfodydd am 1 o'r gloch y pnawn ac un cyfarfod gyda'r nos er mwyn denu Aelodau newydd yn y dyfodol. Ychwanegodd na ddylid newid dyddiad y cyfarfod a drefnwyd ar gyfer 9 Rhagfyr 2025.

Mewn ymateb, dywedodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro y byddai'n rhaid ymgynghori ar amseroedd cyfarfodydd a chynigiodd bod y rhaglen o gyfarfodydd cyffredinol y Cyngor Sir, fel y nodir uchod, yn cael ei derbyn gan fod y dyddiadau wedi'u gosod mewn ymgynghoriad â Swyddogion er mwyn sicrhau eu bod ar gael ar y dyddiadau hynny. Nododd y byddai'n rhaid ymgynghori ag Aelodau Etholedig ynglŷn ag amseroedd cyfarfodydd yn y dyfodol.

## 14. CYDBWYSEDD GWLEIDYDDOL PWYLLGORAU

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Democratiaeth ynglŷn â threfniadau cydbwysedd gwleidyddol y Cyngor i'w ystyried.

**PENDERFYNWYD :-**

- **Cadarnhau'r trefniadau cydbwysedd gwleidyddol a nifer y seddi a ddyrennir i bob Grŵp o dan Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989;**
- **Bod Arweinyddion Grwpiau'n hysbysu'r Pennaeth Democratiaeth cyn gynted ag y bo modd os bydd unrhyw newid o ran aelodaeth Grwpiau ar Bwyllgorau.**

## 15. CYNRYCHIOLAETH AR GYRFF ALLANOL

Cyflwynwyd, i'w ystyried, adroddiad y Pennaeth Democratiaeth mewn perthynas â phenodi cynrychiolwyr ar Gyrff Allanol.

**PENDERFYNWYD cytuno a chadarnhau'r penodiadau fel y nodir yn yr atodlen i'r adroddiad.**

## 16. PANEL ANNIBYNNOL CYMRU AR GYDNABYDDIAETH ARIANNOL - ADRODDIAD BLYNYDDOL AR GYFER 2025/26

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Democratiaeth mewn perthynas ag Adroddiad Blynyddol 2025/2026 y Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol i'w ystyried.

**PENDERFYNWYD:-**

- **Derbyn penderfyniadau Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol ar gyfer 2025-26;**
- **Cadarnhau y bydd deilyddion yr un swyddi â 2024-25 â'r hawl i dderbyn uwch gyflogau yn 2025-26, sef:-**

  **Cadeirydd y Cyngor;**
  **Is-gadeirydd y Cyngor;**
  **Arweinydd y Cyngor,**
  **Arweinydd y Cyngor,**
  **Aelodau eraill y Pwyllgor Gwaith (7);**
  **Arweinydd yr Wrthblaid Fwyaf;**
  **Cadeiryddion y Pwyllgorau Sgriwtini (2);**
  **Cadeirydd y Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion.**

- **Awdurdodi swyddogion i newid Rhan 6 o Gyfansoddiad y Cyngor (Cynllun Cydnabyddiaeth Ariannol i Aelodau) er mwyn adlewyrchu'r penderfyniadau a wnaed yn yr Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2025-26.**

Daeth y cyfarfod i ben am 3.00 o'r gloch yp

**Y CYNGHORYDD GLYN HAYNES**
**CADEIRYDD AR GYFER EITEMAU 1 I 7**

**Y CYNGHORYDD NON DAFYDD**
**CADEIRYDD AR GYFER EITEMAU 8 I 16**